Dŵr Cymru
Welsh Water

Addas ar gyfer oedrannau
6—11

# Effeithlonrwydd Dŵr

## Pecyn Dysgu ac Addysgu



# Croeso i Becyn Addysg Dŵr Cymru ar Effeithlonrwydd Dŵr

Bwriad y pecyn yw cynorthwyo athrawon i arwain disgyblion trwy weithgareddau ymarferol difyr sy'n edrych ar ddefnyddio, arbed ac effeithlonrwydd dŵr. Mae'r pecyn yn cydategu'r cwricwlwm newydd i Gymru ac yn cynnwys cysylltiadau â sgiliau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae manylion y cysylltiadau â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Pedwar Pwrpas Craidd ar dudalennau 3 a 4.

## Trosolwg o'r Pecyn

Mae'r adnodd hwn yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd effeithlonrwydd dŵr, yn eu milltir sgwâr ac ar lefel fyd-eang. Gyda Dŵr Cymru, bydd y disgyblion yn dysgu am rôl hanfodol dŵr yn ein bywydau, a ffyrdd ymarferol o leihau gwastraff.

## Amcanion Dysgu

Trwy'r pecyn hwn, bydd y disgyblion yn:

- Dod i ddeall sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio pob dydd, ac yn trafod ffyrdd o leihau gwastraff.
- Cyflawni ymchwiliadau syml i sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys mesur a chyfrifo.
- Archwilio dulliau o arbed dŵr mewn gwahanol rannau o'r cartref, o'r ystafell ymolchi i'r ardd.
- Cymharu defnydd o ddŵr yng Nghymru â rhannau eraill o'r byd.



# Contents


Cysylltiadau â'r cwricwlwm 6

Canllawiau i athrawon
Cwis Dŵr Cymru
Beth ydych chi'n gwybod yn barod? 8

Taflen waith
Cwis Dŵr Cymru
Beth ydych chi'n gwybod yn barod? 9

Canllawiau i athrawon
Meddwl am ein defnydd o ddŵr 10

Taflen waith
Meddwl am ein defnydd o ddŵr 11

Canllawiau i athrawon
Archwiliad dŵr y cartref 12

Taflen waith
Archwiliad dŵr y cartref 13

Canllawiau i athrawon
Ditectifs dŵr 14

Taflen waith
Ditectifs dŵr 15

Canllawiau i athrawon
Taflen waith amcangyfrif defnydd eich cartref o ddŵr 15

Taflen waith
Amcangyfrif vs ffigur go iawn 16

Canllawiau i athrawon
Dyddiadur defnyddio dŵr 18

Taflen waith
Tasg gwaith cartref
Fy nyddiadur dŵr 19

Canllawiau i athrawon
Defnydd dyddiol o ddŵr
Cymru v y byd 20

Taflen waith
Taflen cwestiynau: defnydd dyddiol o ddŵr – Cymru v y byd 21

Canllawiau i athrawon
Tasg ymchwil: llenwch y ffeithiau 22

Taflen waith
Tasg ymchwil: llenwi'r bylchau 23

Canllawiau i athrawon
Datrys problemau gyda dŵr 24

Taflen waith
Datrys problemau gyda dŵr
Taflen waith 1 25

Taflen waith
Datrys problemau gyda dŵr
Taflen waith 2 27

Canllawiau i athrawon
Poster arbed dŵr gartref 27

Taflen waith
Creu eu poster arbed dŵr gartref 27

Canllawiau i athrawon
Doeth gyda dŵr: gweithgaredd fesul ystafell 28

Taflen waith
Doeth gyda dŵr: gweithgaredd fesul ystafell 29

Canllawiau i athrawon
Arbed dŵr gartref ac yn yr ysgol 30

Taflen waith
Arbed dŵr gartref ac yn yr ysgol 31

Canllawiau i athrawon
Creu eich taflen Cartref eich hun 32

Taflen waith
Creu eich taflen Cartref eich hun 33

Canllawiau i athrawon
Yr helfa sborion a'r cynllun gweithredu Eco-ysgolion 34

Taflen waith
Yr helfa sborion a'r cynllun gweithredu Eco-ysgolion 35

Canllawiau i athrawon
Testun darllen a deall i'r disgyblion 36

Taflen waith
Cwestiynau darllen a deall i'r disgyblion 37

Gweithgareddau i ddilyn gweithdy
Yr ymchwiliad i dap sy'n diferu 38

Taflen waith
Yr ymchwiliad i dap sy'n diferu 39

Gweithgareddau i ddilyn gweithdy
Meddwl am y gweithdy ymarferol 41

Canllawiau i athrawon
Meddwl am y Frwydr Dŵr 42

Taflen waith
Cwis y Frwydr Dŵr 43

Taflen waith
Meddwl am y Frwydr Dŵr 44

Taflen waith
Tasg Cartref: Y Frwydr Dŵr 45

Taflen waith
Dŵr Cymru quiz
Beth ydych chi'n cofio am effeithlonrwydd dŵr? 46

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

## Areas of Learning and Experience (AoLE)

### MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Is-faes**

Y byd o'n cwmpas, hybu dyfodol cynaliadwy

**Cysylltiad**

Bydd y disgyblion yn archwilio rôl dŵr mewn systemau naturiol, pwysigrwydd cadwraeth, ac effeithiau pobl ar adnoddau dŵr. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys dyddiadur dŵr, amcangyfrifon ditectif dŵr, ac ymchwiliad y tap sy'n diferu.

### MDPh Mathemateg a Rhifedd

**Is-faes**

Deall cyfeintiau, cymariaethau a chyfleu data

**Cysylltiad**

Bydd y gweithgareddau fel y cymariaethau o ddefnydd dŵr pob dydd, yr archwiliad dŵr, a'r cwestiynau datrys problemau'n helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau amcangyfrif, mesur a dadansoddi data – gan gysylltu mathemateg a materion y byd go iawn.

### MDPh y Dyniaethau

**Is-faes**

Effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd

**Cysylltiad**

Bydd y gweithgareddau, sy'n cynnwys helfa sborion Eco-Ysgolion, edrych nôl ar weithdai ymarferol, a thasgau ymchwil, yn helpu'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth am yr amgylchedd, gan hybu dinasyddiaeth fyd-eang gwybodus.

### MDPh Iechyd a Lles

**Is-faes**

Iechyd corfforol a lles meddwl

**Cysylltiad**

Mae'r rhaglen yn pwysleisio dŵr fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer iechyd, hylendid a lles – gan hybu arferion i fyw bywyd iach. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys y dyddiadur dŵr a'r archwiliad dŵr cartref er mwyn meithrin hunan-ymwybyddiaeth am ddefnydd o ddŵr pob dydd.

## Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlaRh)

### Sgiliau Llythrennedd

**Llafaredd**

Bydd trafodaethau dosbarth, myfyrdodau a myfyrdodau grŵp yn meithrin sgiliau siarad a gwrando wrth i'r disgyblion rannu a gwerthuso syniadau am ffyrdd o arbed dŵr.

**Darllen**

Bydd y taflenni darllen a deall am effeithlonrwydd dŵr a pheirianwyr gollyngiadau Dŵr Cymru, a'r testunau gwybodaeth yn cryfhau gallu'r disgyblion i ddod o hyd i fanylion allweddol, eu dehongli a'u deall.

**Ysgrifennu**

Bydd llunio posteri arbed dŵr, y myfyrdodau a'r tasgau ymchwil yn hybu ysgrifennu pwrpasol, gan annog y disgyblion i gyfleu cysyniadau effeithlonrwydd dŵr mewn ffordd greadigol a darbwyllol.

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### Sgiliau Rhifedd

**Amcangyfrif a Chyfrifo**

Mae gweithgareddau fel mesur defnydd dŵr yn y cartref, ymchwiliad y tap sy'n diferu, a chymharu defnydd o ddŵr pob dydd yn cynnwys rhifyddeg sylfaenol a dadansoddi data.

**Datrys problemau**

Bydd y cwestiynau mathemateg a'r sefyllfaoedd o'r byd go iawn ynghylch effeithlonrwydd dŵr yn annog y disgyblion i ddefnyddio rhifedd mewn cyd-destunau ymarferol.

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD)

**Ymchwil Digidol a Llythrennedd Gwybodaeth**

Bydd y disgyblion yn ymarfer ffeindio a gwerthuso gwybodaeth am ffeithiau dŵr ar lein, yn datblygu sgiliau llythrennedd digidol, gwerthuso beirniadol a defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd gyfrifol.

**Trin Data**

Anogir y disgyblion i ddefnyddio offer digidol (fel taenlenni neu apiau data) i gofnodi a dadansoddi defnydd o ddŵr, gan ddatblygu eu dealltwriaeth am sut y gall technoleg gefnogi nodau amgylcheddol.

## Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru

**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog:**

Trwy gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, amcangyfrif a thasgau ymchwiliol, bydd y disgyblion yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau, yn arbennig trwy amcangyfrif a dilysu eu rhagdybiaethau eu hunain.

**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus**

Bydd gweithgareddau fel yr helfa sborion Eco-ysgolion, gwaith ymchwil i Ddŵr Cymru, ac archwiliadau dŵr cartref yn annog y disgyblion i ystyried effaith eu gweithredoedd ar gymunedau lleol a byd-eang, gan feithrin ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb.

**Unigolion iach, hyderus**

Trwy roi ffocws ar ddŵr fel adnodd ar gyfer iechyd, bydd y disgyblion yn datblygu arferion ymarferol i gynorthwyo llesiant a deall effaith bersonol dewisiadau cynaliadwy.

**Cyfranwyr mentrus, creadigol**

Bydd dylunio posteri, cyflawni gwaith ymchwil, a chynnig atebion i arbed dŵr trwy'r dasg "doeth gyda dŵr fesul ystafell" yn hybu cyfraniadau creadigol i greu dyfodol cynaliadwy.

# Cwis Dŵr Cymru

## Beth ydych chi'n gwybod yn barod?

Bydd y cwis yma'n helpu i asesu gwybodaeth y disgyblion am ddefnyddiau dŵr, arbed dŵr a rôl Dŵr Cymru. Bydd yn cyflwyno'r cysyniadau allweddol ar gyfer y gweithgareddau effeithlonrwydd dŵr ac eco-ymwybyddiaeth a fydd yn dilyn.

### Awgrymiadau i athrawon

Trafodwch yr atebion er mwyn ategu dealltwriaeth a pharatoi ar gyfer y gweithgareddau sydd i ddod.

### Atebion

1. b) Glanhau a dosbarthu dŵr yfed
   c) Glanhau dŵr gwastraff
2. Atebion enghreifftiol:
   - Amddiffyn yr amgylchedd
   - Helpu mewn cyfnodau o sychder
   - Helpu cenedlaethau'r dyfodol
   - Lleihau defnydd o ynni
   - Sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i bawb
   - Arbed arian
3. Bath llawn
4. Atebion enghreifftiol:
   - Cau'r tap wrth frwsio dannedd
   - Treulio llai o amser yn y gawod
   - Trwsio tapiau a thoiledau sy'n gollwng
   - Defnyddio bwced yn lle pibell ddyfrio wrth olchi'r car
   - Casglu dŵr glaw i ddyfrio'r planhigion
   - Golchi'r llestri mewn powlen yn y sinc
   - Rhoi llai o ddŵr yn y bath
5. 6-8 cwpanaid
6. Gwir
7. Pobl
8. Unol Daleithiau America
9. Gwir
10. Gwir



# Cwis Dŵr Cymru

## Beth ydych chi'n gwybod yn barod?

Taflen waith

**1. Rhowch gylch o gwmpas dau brif rôl Dŵr Cymru:**

a) Rhoi gwersi nofio

b) Glanhau a dosbarthu dŵr yfed

c) Glanhau dŵr gwastraff

d) Gwerthu dŵr potel i archfarchnadoedd

**2. Nodwch un rheswm pam y dylem ni arbed dŵr:**

..........................................................................

**3. Pa un sy'n defnyddio mwy o ddŵr? Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Cawod 5 munud

b) Bath llawn

**4. Nodwch un ffordd o arbed dŵr gartref:**

..........................................................................

**5. Sawl cwpanaid o ddŵr ddylen ni yfed bob dydd?**

..........................................................................

**6. Gwir neu anwir: gallai tap sy'n diferu wastraffu hyd at 16 litr y dydd. Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

◯ Gwir ◯ Anwir

**7. Ai pobl sydd wedi creu cronfeydd dŵr neu fyd natur? Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Pobl

b) Byd natur

**8. O ran dŵr, pa wlad sy'n defnyddio'r mwyaf fesul person: Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Cymru

b) Awstralia

c) Unol Daleithiau America

**9. Gwir neu anwir: dŵr hallt yw'r rhan fwyaf o'r dŵr ar ein planed?**

◯ Gwir ◯ Anwir

**10. Gwir neu anwir: ni allwn ni greu dŵr newydd?**

◯ Gwir ◯ Anwir

# Meddwl am ein defnydd o ddŵr

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac ar y cyd i feddwl am wahanol ffyrdd mae pobl yn defnyddio dŵr yn eu bywydau pob dydd. Bydd y dasg yma'n hybu ffyrdd creadigol o feddwl am rôl dŵr mewn gwahanol weithgareddau, ac yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd arbed dŵr.

## Awgrymiadau i athrawon

- Hwyluswch y trafodaethau grŵp er mwyn helpu'r disgyblion i rannu ac ehangu eu syniadau.
- Cysylltwch hyn â'r gwersi sydd i ddod ar effeithlonrwydd dŵr ac ymdrechion i arbed dŵr.

## Atebion


- Brwsio dannedd
- Golchi dwylo
- Fflysio'r toiled
- Yfed
- Cael bath
- Cael cawod
- Dyfrio planhigion
- Coginio
- Golchi'r car
- Tegell





# Meddwl am ein defnydd o ddŵr

*Brwsio dannedd*



Cofnodwch yr holl ffyrdd
rydyn ni'n defnyddio
dŵr gartref neu yn yr ysgol.
(Rydyn ni wedi gwneud yr un
cyntaf i chi)

# Archwiliad dŵr y cartref

Yn y gweithgaredd archwiliad y cartref yma, bydd y disgyblion yn arsylwi ar arferion dŵr eu teulu ac yn eu cofnodi, fel cau'r tap wrth frwsio dannedd neu ddewis cael cawod yn lle bath.

Mae'r gweithgaredd yma'n codi ymwybyddiaeth am ddefnydd personol o ddŵr a chyfleoedd i arbed dŵr.

## Awgrymiadau i athrawon

**Trafodwch ganfyddiadau'r dosbarth**

- Ar ôl i'r disgyblion gwblhau'r archwiliad, hwyluswch drafodaeth dosbarth i gymharu arferion cyffredin a thynnu sylw at gyfleoedd i wella arferion arbed dŵr.

**Anogwch deuluoedd i gymryd rhan**

- Awgrymwch bod y disgyblion yn trafod yr archwiliad ag aelodau'r teulu er mwyn hybu arferion arbed dŵr gartref.

**Cysylltwch y gweithgaredd ag effeithiau o fywyd go iawn**


- Ategwch y ffaith fod newidiadau bach mewn arferion dŵr yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.
- Mae hwn yn gyfle i ymgorffori gweithgareddau trin data.





# Archwiliad dŵr y cartref

Gofynnwch i rywun eich helpu i ateb y cwestiynau hyn i weld sut yr ydych chi a'r teulu'n defnyddio dŵr gartref.



| Ydych chi'n... | Ydym | Nac Ydym |
|---|---|---|
| cau'r tap pan fyddwch yn brwsio'ch dannedd? | | |
| rhoi plwg yn y basn pan fyddwch yn ymolchi neu'n shafio? | | |
| defnyddio toiled â fflysh ddeuol? | | |
| treulio pedair munud neu lai yn y cawod? | | |
| golchi llysiau mewn dysgl yn hytrach nag o dan y tap? | | |
| golchi llestri mewn dysgl yn hytrach na mewn peiriant? | | |
| aros nes bod i peirienat golchi llestri'n llawn cyn ei roi ymlaen? | | |
| defnyddio'r botwm 'hanner llwyth' ar y peiriant golchi os bydd angen? | | |
| rhoi dim ond digon o ddŵr yn y tegell i wneud un diod poeth? | | |
| dewis cael cawod yn lle bath? | | |
| rhoi dŵr i'r blodau gyda'r nos yn hytrach nag yng ngwres y dydd? | | |
| defnyddio dŵr o gasgen i roi dŵr i'r ardd? | | |
| defnyddio can dŵr yn lle pibell i roi dŵr i'r ardd? | | |
| defnyddio bwced a sbwng yn lle pibell dŵr i lanhau'r car? | | |
| trwsio tapiau sy'n diferu ar unwaith? | | |

# Ditectifs dŵr

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn amcangyfrif faint o ddŵr mae gwahanol eitemau'r cartref (fel peiriant golchi neu gawod) yn ei ddefnyddio.

Y nod yw helpu'r disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth fras am sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn y cartref cyn iddynt ddysgu'r ffigurau go iawn yn y gweithgaredd nesaf.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch y disgyblion i roi Amcangyfrifon Rhesymegol**
Gofynnwch i'r disgyblion feddwl pa eitemau maen nhw'n credu sy'n defnyddio'r mwyaf, gan feithrin meddwl beirniadol am ddefnydd pob dydd o ddŵr.

**Trafodwch y Syniadau Cychwynnol**
Ar ôl amcangyfrif, gofynnwch i'r disgyblion rannu eu rhesymeg – mae hyn yn gallu datgelu syniadau diddorol am ddefnydd o ddŵr.

**Paratowch ar gyfer y Gweithgaredd Nesaf**
Dywedwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n cymharu eu dyfaliadau â ffigurau go iawn am ddefnydd dŵr, sy'n gallu sbarduno chwilfrydedd ac ymgysylltiad.





# Ditectifs dŵr
## Taflen waith amcangyfrif defnydd eich cartref o ddŵr

Gadewch i ni amcangyfrif faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd. Ar ôl i ni ddyfalu, byddwn ni'n datgelu'r ffigurau go iawn ac yn gweld ble mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn cael ei ddefnyddio.



# Amcangyfrif vs ffigur go iawn

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn cymharu eu hamcangyfrifon am faint o ddŵr mae gwahanol eitemau'r cartref yn ei ddefnyddio â'u defnydd go iawn. Wedyn byddan nhw'n cyflawni ymarfer mathemateg syml i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng eu hamcangyfrifon a'r ffigurau go iawn, gan gryfhau eu sgiliau rhifedd a datblygu eu hymwybyddiaeth am ddefnydd go iawn.

## Awgrymiadau i athrawon

**Hwyluswch Drafodaeth i Gymharu**
Anogwch y disgyblion i feddwl am unrhyw wahaniaethau sy'n peri syndod rhwng eu hamcangyfrifon a'r data go iawn.

**Cysylltwch hyn â Mathemateg**
Esboniwch i'r plant sut i gyfrifo'r gwahaniaethau er mwyn ategu sgiliau amcangyfrif a thynnu.

**Ategwch Ymwybyddiaeth**
Tynnwch sylw at sut y gall y wybodaeth yma ategu gwell dewisiadau o ran defnydd o ddŵr.

## Atebion

| Gweithgaredd | Defnydd go iawn* |
|---|---|
| Tap sy'n rhedeg fesul 1 munud | 10 litr |
| Dŵr yfed y dydd y person | 2 litr (6-8 cwpanaid) |
| Cawod fesul munud | 15 litr |
| Peiriant golchi dillad | 80 litr |
| Peiriant golchi llestri ar osodiad eco | 15 litr |
| Un fflysh | 6–9 litr |
| Bath llawn | 80 litr |
| Tegell llawn | 2 litr |
| Pibell ddyfrio fesul munud | 15 litr |
| Can dyfrio llawn | 10 litr |

*Amcangyfrifon yw'r rhain sy'n dibynnu ar nifer o ffactorau e.e. maint y bath.





## Defnydd dŵr cyfartalog yn y cartref



# Dyddiadur defnyddio dŵr

Yn ystod y dasg gwaith cartref yma, bydd y disgyblion yn tracio defnydd eu haelwyd o ddŵr dros ychydig ddiwrnodau, gan gynnwys sawl tro mae'r toiled yn cael ei fflysio, munudau yn y gawod, a gweithgareddau pob dydd eraill. Bydd dyddiadur yma'n annog disgyblion i sylwi'n ofalus ar eu harferion dŵr, a dechrau deall eu hôl troed dŵr eu hunain a'u teulu.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch y Disgyblion i Dracio'n Gyson**
Gofynnwch i'r disgyblion fod mor fanwl â phosibl wrth gofnodi pob defnydd er mwyn cael gwir ddarlun o'u defnydd pob dydd.

**Trafodwch y Defnydd**
Yn y dosbarth, trafodwch y patrymau y gwelson nhw ac unrhyw ganfyddiadau annisgwyl.

**Pennwch Nodau**
Defnyddiwch ganlyniadau'r dyddiadur i annog y disgyblion i ystyried newidiadau bychain y gallent eu gwneud i leihau eu defnydd o ddŵr.





# Tasg gwaith cartref

## Fy nyddiadur dŵr

Dros y diwrnod nesaf, rydych chi'n mynd i gadw dyddiadur dŵr i gadw trac ar faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio gartref. Dilynwch y camau hyn i lenwi'ch dyddiadur dŵr.



Toiled:

| Sawl gwaith | | Faint fesul fflysh | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 9 litr | = | litr |

Cawod pŵer

| Minutes | | Faint fesul munud | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 15 litr | = | litr |

Bath

| Sawl gwaith | | Faint fesul bath | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 80 litr | = | litr |

Golchi dwylo

| Sawl gwaith | | Faint fesul tro | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 5 litr | = | litr |

Peiriant golchi dillad

| Sawl gwaith | | Faint fesul tro | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 80 litr | = | litr |

Peiriant golchi llestri

| Sawl gwaith | | Faint fesul tro | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | 15 litr | = | litr |

Yfed

| Sawl Gwydraid | | Fain fesul gwydr | | Cyfanswm defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | x | ¼ litr | = | litr |

Adiwch eich holl ddefnydd i gyfrifo'r defnydd yn fras fesul dydd:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm defnydd | litr |

# Defnydd dyddiol o ddŵr

## Cymru v Y Byd

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn cymharu'r defnydd dyddiol o ddŵr yng Nghymru â gwledydd eraill ar draws y byd. Nod y dasg yw datblygu dealltwriaeth y disgyblion am wahaniaethau mewn defnydd o ddŵr ar draws y byd a'u hannog i feddwl am ddefnydd ac effeithlonrwydd dŵr ar lefel fyd-eang.

### Awgrymiadau i athrawon

**Hwyluswch Drafodaeth**
Anogwch y disgyblion i ystyried pam fod y defnydd o ddŵr yn amrywio, gan drafod ffactorau fel yr hinsawdd, ffyrdd o fyw, a pha mor hawdd yw hi i bobl gael dŵr yn y gwahanol wledydd.

**Pwysleisiwch Effeithlonrwydd**
Trafodwch sut y gallai gwledydd sy'n defnyddio llawer o ddŵr, fel Cymru, leihau eu defnydd, a pham fod hynny'n bwysig.

**Cysylltwch ag Empathi**
Ceisiwch feithrin safbwynt byd-eang trwy drafod sut mae'r ffaith ei bod hi'n anodd cael dŵr yn effeithio ar bobl mewn gwledydd lle nad oes llawer o ddŵr ar gael.

### Atebion

1. Cawod 5 munud (5 x 7 litr fesul munud)
   + un llwyth mewn peiriant golchi dillad (80 litr)
   + dau fflysh (2 x 9 litr)
   + tap yn rhedeg am un funud (9 litr)
   + un tegell llawn (8 litr)
   =150 litr (35 +80+18+9+8=150)

4. Mae'r gwledydd yma'n fwy cynnes ac yn cael glaw llai cyson. Efallai ei bod yn defnyddio dŵr am wahanol resymau.





# Taflen cwestiynau

## Defnydd dyddiol o ddŵr: cymru v y byd

1. **Atebwch y cwestiynau i gyfrifo sawl litr mae'r person cyfartalog yng Nghymru defnyddio pob dydd.**

   Cawod 5 munud + un llwyth mewn peiriant golchi dillad + dau fflysh + tap yn rhedeg am un funud + 1 tegell llawn = = ................................




2. **Sawl person sy'n byw yn eich cartref?** .................

3. **Lluoswch y nifer o bobl sy'n byw yn eich cartref â 150 litr**

   Cyfrifiad ......... person x 150 litr = ................

Er ei fod yn syrthio o'r awyr, mae llawer o waith a gofal yn mynd i gael dŵr i'ch tapiau – ac yng Nghymru, mae cyflenwad da iawn o ddŵr glan gyda ni. Ond mewn rhai gwledydd llai datblygedig, mae'r defnydd cyfartalog o ddŵr yn gallu bod mor isel â 9 litr o ddŵr y dydd! Mae hynny gyfwerth ag un fflysh o'r toiled yma yng Nghymru.

Ond mae yna wledydd sy'n defnyddio mwy o ddŵr na'r person cyfartalog yng Nghymru.

Mae person cyfartalog yn Sydney, Awstralia'n defnyddio 200 litr y dydd.

Mae person cyfartalog yng Nghalifornia, America'n defnyddio 310 litr y dydd.

4. **Pam ydych chi'n credu bod pobl y gwledydd yma'n yn defnyddio mwy na phobl Cymru?**

   .......................................................................................................

   .......................................................................................................

# Tasg ymchwil

## Llenwch y ffeithiau

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn defnyddio iPads neu Chromebooks yr ysgol i ymchwilio a llenwi'r bylchau gydag amryw o ffeithiau am ddŵr. Bydd y dasg yma'n datblygu eu sgiliau ymchwilio, yn hybu llythrennedd gwybodaeth, ac yn ategu pwysigrwydd dŵr mewn amryw o gyd-destunau, o iechyd i'r amgylchedd.

### Awgrymiadau i athrawon

**Cyflwynwch Sgiliau Ymchwilio**

Adolygwch dechnegau chwilio effeithiol gyda'r disgyblion i'w cynorthwyo i ddod o hyd i wybodaeth gywir yn gyflym.

**Hyrwyddwch Gydweithio**


Caniatewch i'r disgyblion weithio mewn parau neu grwpiau bach i feithrin trafodaeth a dysgu gyda'i gilydd.

**Trafodwch y Canfyddiadau**

Ar ôl cwblhau'r dasg, dewch â'r dosbarth cyfan ynghyd i rannu unrhyw ffeithiau difyr maen nhw wedi eu darganfod, gan ategu'r cysylltiad rhwng gwaith ymchwil a deall rôl dŵr yn ein bywydau.

### Atebion

Ffeithiau fyfrllyd









# Tasg ymchwil

## Llenwi'r bylchau

Defnyddiwch gyfrifiadur neu iPad i ddod o hyd i'r atebion i'r ffeithiau yma am ddŵr. Llenwch y bylchau ar eich taflen gan ddefnyddio'r wybodaeth ffeindiwch chi.



Canllawiau i athrawon

# Datrys problemau gyda dŵr

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn datrys problemau geiriol sy'n gysylltiedig â defnyddio dŵr ac effeithlonrwydd dŵr. Bydd y dasg yma'n eu cynorthwyo nhw i ddefnyddio eu sgiliau mathemateg mewn senarios o'r byd go iawn, gan ategu'r cysylltiad rhwng mathemateg ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch Meddwl Beirniadol**
Anogwch y disgyblion i ddarllen pob problem yn ofalus a dod o hyd i'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen i'w datrys.

**Trafodwch Strategaethau**
Trafodwch amryw o ddulliau o fynd ati i ddatrys y problemau, gan gynnwys dulliau o amcangyfrif a chyfrifo.

**Cysylltwch y peth â bywyd go iawn**
Ar ôl datrys y problemau, anogwch y disgyblion i rannu sut mae'r senarios yn ymwneud â'u defnydd eu hunain o ddŵr a phwysigrwydd defnyddio dŵr yn effeithlon.

## Atebion

**Taflen datrys problemau 1**
1. 50
2. 190
3. 140
4. 560
5. 245
6. 315
7. 640
8. 4200
9. a) 24
   b) 168
10. a) 50
   b) 270
   c) 196

**Taflen datrys problemau 2**
1. 1323
2. 882
3. 700
4. 245, 560, 315
5. 140, 14
6. 4
7. 2700
8. 6570
9. 1840
10. 285kg
   255kg



# Datrys problemau gyda dŵr
## Taflen waith 1



1. Mae bwced mawr yn dal 10 litr o ddŵr. Os yw Rhys yn defnyddio 1 llond bwced o ddŵr â sebon a 4 llond bwced o ddŵr glân, sawl litr o ddŵr fydd Rhys yn eu defnyddio i olchi ei gar?

2. Mae pibell ddŵr yn defnyddio 9 litr o ddŵr mewn munud. Mae Sam yn golchi ei gar gan ddefnyddio 1 llond bwced o ddŵr â sebon (10 litr) a phibell ddŵr. **Nid yw'n a**au'r tap pan na fydd yn defnyddio'r bibell ac felly mae'r dŵr yn rhedeg i lawr y dreif. Mae'n cymryd 20 munud i olchi'r car. Faint o ddŵr mae wedi'i ddefnyddio?

3. Edrychwch ar eich atebion i gwestiynau 1 a 2.
Mae Sam wedi defnyddio mwy o ddŵr na Rhys. Faint yn fwy?

4. Mae bath yn defnyddio tua 80 litr o ddŵr. Os yw Megan yn cael bath bob dydd, faint o ddŵr mae hi'n ei ddefnyddio mewn wythnos?

5. Mae Joe yn cael cawod bob dydd. Mae cawod 5 munud yn defnyddio tua 35 litr o ddŵr. Faint o litrau mae Joe yn eu defnyddio mewn wythnos?

6. Edrychwch ar eich atebion i gwestiynau 4 a 5.
Faint yn fwy o ddŵr mae Megan yn ei ddefnyddio na Joe?

7. Mae peiriant golchi Vikki yn defnyddio 80 litr bob tro. Os yw Vikki'n golchi dau lwyth ar ddydd Sadwrn ac un llwyth bob diwrnod arall, faint o litrau o ddŵr mae hi'n ddefnyddio?

8. Mae mesurydd dŵr yn dangos bod teulu o bedwar wedi defnyddio 600 litr o ddŵr mewn diwrnod. Faint o ddŵr fyddan nhw'n ei ddefnyddio mewn wythnos?

9. Mae Laura'n gadael y tap i redeg pan fydd yn brwsio'i dannedd. Gan fod y tap yn rhedeg yn araf, dydi hi ddim yn meddwl ei bod yn gwastraffu llawer o ddŵr.
Mae'r tap yn defnyddio 6 litr y funud ac mae hi'n brwsio'i dannedd am ddwy funud.
   a) Faint o ddŵr fydd hi'n ei wastraffu os yw hi'n brwsio'i dannedd yn y bore a'r nos?
   b) Faint o ddŵr fyddai hi'n ei wastraffu dros wythnos gyfan?

10. Mae Emily'n cael cawod 10 munud. Mae'r gawod yn defnyddio tua 7 litr o ddŵr y funud.
   a) Faint o litrau fydd hi'n eu defnyddio i gael un cawod?
   b) Faint o litrau fyddai hi'n eu defnyddio pe bai'n cael cawod bob diwrnod?
   c) Pe bai hi'n cael cawod am 4 munud bob dydd, faint o ddŵr fyddai hi'n ei ddefnyddio yn y gawod mewn wythnos gyfan?

# Datrys problemau gyda dŵr
## Taflen waith 2

Taflen waith

1. Mae toiled arferol yn defnyddio 9 litr o ddŵr bob tro rydych yn tynnu'r dŵr. Mewn un teulu, roedd y dŵr yn cael ei dynnu 21 gwaith mewn diwrnod. Sawl litr o ddŵr fyddai'n cael ei ddefnyddio yn y toiled mewn wythnos?

2. Edrychwch ar eich ateb i gwestiwn 1. Pe bai bag hipo yn y seston, byddai'n arbed 3 litr o ddŵr bob tro. Cyfrifwch sawl litr o ddŵr y byddai'r teulu'n eu defnyddio i dynnu dŵr y toiled pe baent yn gosod bag hipo.

3. Mae Molly'n rhoi dŵr i'r ardd o gan dŵr sy'n dal 10 litr o ddŵr. Os yw'n defnyddio 5 llond can dŵr bob nos am bythefnos, faint o ddŵr fydd hi'n ei ddefnyddio?

4. Mae Ben yn cael pum cawod mewn wythnos ac mae Kyle yn cael pum bath. Os yw'r gawod yn defnyddio 35 litr o ddŵr a'r bath yn defnyddio 80 litr, cyfrifwch faint o ddŵr mae Ben a Kyle yn ei ddefnyddio a'r gwahaniaeth rhyngddynt.

5. Mae pibell ddŵr Jac yn defnyddio 560 litr o ddŵr mewn awr. Os yw'n rhoi dŵr i'r ardd am 15 munud, sawl litr fydd yn eu defnyddio? Mae can dŵr yn dal 10 litr, sawl can dŵr fyddai'n rhaid i Jac eu defnyddio i roi'r un faint o ddŵr?

6. Mae mesurydd dŵr yn nodi bod teulu'n defnyddio 824 litr o ddŵr bob dydd. Os yw pawb yn y teulu'n defnyddio 206 litr o ddŵr yr un, faint o bobl sydd yn y teulu?

7. Mae Jamie wedi anghofi o diffodd y chwistrellydd dŵr yn yr ardd ac wedi mynd allan am y prynhawn. Mae'r chwistrellydd yn defnyddio 600 litr o ddŵr mewn awr. Os yw wedi troi'r chwistrellydd ymlaen am 1 o'r gloch a'i fod yn dod adref ac yn ei ddiffodd am 5.30 o'r gloch, faint o ddŵr mae'r chwistrellydd wedi'i ddefnyddio?

8. Kewn nenrref wledig yn Sganda, mae Bem`e yn cerdded at y pwmp dŵr bob dydd cyn mynd i'r ysgol. Mae'n cymryd awr i gerdded yno ac mae'n rhaid iddi giwio am awr am y dŵr. Mae'n cymryd awr arall iddo gerdded adref. Dechreuodd wneud hyn ar ei pen-blwydd yn 6 oed ac mae'n 12 oed heddiw. Cyfrifwch sawl awr mae wedi'i dreulio'n cario dŵr. (Does dim angen cyfrif blwyddyn naid).

9. Mae ffrind Bem`e, Mbaba yn 15 oed. Mae hi'n cario llestr dŵr sy'n dal 20 litr o'r un pwmp dŵr. Mae hi'n casglu dŵr unwaith bob dydd. Cyfrifiwch faint o ddŵr mae en ei gasglu ym mis Awst, mis Medi a mis Hydref.

10. Mae 1 litr o ddŵr yn pwyso 1kg. Cyfrifwch bwysau'r dŵr mewn 3 bath (80 litr ym mhob bath) a phwysau'r dŵr os ydych yn tynnu dŵr y toiled 5 gwaith (9 litr bob tro). Os yw Jess yn pwyso 30kg, faint yn fwy yw pwysau'r dŵr?



Canllawiau i athrawon

# Poster arbed dŵr

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn creu poster sy'n tynnu sylw at eu strategaethau arbed dŵr o'r dasg flaenorol "Doeth gyda Dŵr Fesul Ystafell". Bydd y prosiect creadigol yma'n caniatáu i'r disgyblion ddangos eu dealltwriaeth am gadwraeth dŵr mewn ffordd weledol wrth ategu pwysigrwydd gweithredu.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch Greadigrwydd**

Caniatewch i'r disgyblion ddefnyddio amryw o ddeunyddiau a thechnegau, fel darluniau, diagramau a sloganau, i wneud eu posteri yn ddeniadol a rhannu gwybodaeth.

**Canolbwyntiwch ar y Negeseuon Allweddol**

Atgoffwch y disgyblion i gynnwys awgrymiadau clir y gellir gweithredu arnynt i arbed dŵr ym mhob ystafell yn eu cartrefi.

**Arddangoswch a Thrafodwch**

Arddangoswch y posteri yn y dosbarth neu'r ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth am arbed dŵr ac annog y disgyblion eraill i fabwysiadu'r arferion hyn.

Cyfarwyddiadau disgyblion

# Creu eu Poster Arbed Dŵr Gartref

Taflen waith

Nawr eich bod chi wedi meddwl am ffyrdd da o arbed dŵr, mae hi'n amser defnyddio'r syniadau yna i greu eich Poster Arbed Dŵr Gartref eich hun.

1. Tynnwch lun tŷ â gwahanol ystafelloedd. Cofiwch gynnwys ystafell ymolchi, cegin, ystafell golchi dillad a gardd. Gallwch ychwanegu ystafelloedd eraill hefyd os ydych chi eisiau.
2. Ym mhob ystafell, tynnwch lun o'ch syniadau arbed dŵr. Er enghraifft, yn yr ystafell ymolchi gallech ddangos cael cawod byrrach, ac yn yr ardd, gallech ddangos system casglu dŵr glaw.
3. Gwnewch eich poster yn lliwgar ac yn greadigol er mwyn dangos pa mor bwysig yw arbed dŵr!
4. Ar ôl gorffen, rhannwch eich poster â'r dosbarth ac esboniwch yr awgrymiadau arbed dŵr rydych chi wedi eu cynnwys ym mhob ystafell.

Gadewch i ni wneud pob ystafell yn lle arbed dŵr!

# Doeth gyda dŵr: gweithgaredd fesul ystafell

Yn y gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn dadansoddi pob ystafell yn eu cartrefi ac yn ystyried ffyrdd o arbed dŵr ynddynt. Mae'r dasg yma'n hybu ffyrdd beirniadol o feddwl am ddefnyddio dŵr mewn gwahanol gyd-destunau a dod o hyd i atebion ymarferol i arbed dŵr.

## Awgrymiadau i athrawon

**Rhowch Arweiniad i Ddadansoddi Ystafelloedd**
Anogwch y disgyblion i ystyried gwahanol agweddau ar bob ystafell, fel ystafelloedd ymolchi, ceginau, ac ardaloedd golchi dillad, gan drafod y defnydd penodol o ddŵr ym mhob un.

**Hyrwyddwch Atebion Creadigol**
Heriwch y disgyblion i feddwl yn greadigol am ffyrdd o leihau defnydd o ddŵr, fel defnyddio llai o ddŵr yn y gawod neu drwsio gollyngiadau.

**Rhannwch Syniadau**
Ar ôl ysryried, gofynnwch i'r disgyblion rannu eu hawgrymiadau â'r dosbarth er mwyn meithrin amgylchedd cydweithredol â ffocws ar arbed dŵr.

## Atebion fesul ystafell

**Yr ystafell ymolchi**
- Cau'r tap wrth frwsio dannedd/ seboni dwylo
- Cawodydd byrrach
- Cael bath yn llai aml
- Rhoi lai o ddŵr yn y bath
- Trwsio gollyngiadau
- Gosod dyfeisiau arbed dŵr yn y gawod, y bath neu'r toiled

**Y gegin**
- Defnyddio bowlen i olchi'r llestri
- Gwasgu botwm eco y peiriant golchi llestri
- Aros nes bod llwyth llawn yn y peiriant golchi llestri

**Yr ystafell golchi dillad**
- Aros nes bod llwyth llawn yn y peiriant golchi dillad
- Gwasgu'r botwm eco


**Yr ardd**
- Dyfrio'r planhigion yn gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos
- Defnyddio casgen ddŵr
- Defnyddio can dyfrio yn lle pibell ddyfrio
- Defnyddio bwced yn lle pibell ddyfrio wrth olchi'r car
- Osgoi defnyddio taenellwr





# Doeth gyda dŵr: gweithgaredd fesul ystafell

Edrychwch ar y gwahanol ystafelloedd a nodwch ffyrdd o arbed dŵr ym mhob un.



# Arbed dŵr gartref ac yn yr ysgol

Trwy'r gweithgaredd yma, bydd y disgyblion yn dysgu am y Tîm Cartref a'i rôl wrth helpu cartrefi i arbed dŵr trwy ddarparu a gosod dyfeisiau arbed dŵr, fel pennau cawod effeithlon. Ar ôl cael cyflwyniad i'r dyfeisiau, bydd y disgyblion yn ateb cwestiynau mathemateg yn seiliedig ar arbedion dŵr o'r byd go iawn, fel cyfrifo maint y gostyngiad yn y defnydd o ddŵr trwy ddefnyddio dyfeisiau penodol.

## Awgrymiadau i athrawon

**Cyflwynwch y Tîm Cartref**
Esboniwch genhadaeth Tîm Cartref i helpu aelwydydd i arbed dŵr trwy atebion ymarferol, fel pennau cawod effeithlon, ategion tap, a bagiau arbed flysh.

**Trafodwch bob Dyfais**
Rhowch ddisgrifiad cryno o sut mae pob dyfais yn gweithio a'u heffaith ar arbedion dŵr. Mae hyn yn gosod y problemau mathemateg yn eu cyd-destun.

**Ymarferwch Fathemateg gyda Defnyddiau o'r Byd Go Iawn**
Esboniwch y cyfrifiadau arbed dŵr i'r disgyblion, gan bwysleisio bod y sgiliau maen nhw'n defnyddio'n union gysylltiedig ag ymdrechion effeithlonrwydd dŵr ymarferol pob dydd.

**Anogwch Drafod**
Ar ôl y cwestiynau mathemateg, trafodwch pam fod dyfeisiau arbed dŵr yn bwysig, a sut y gall addasiadau bychain gartref gronni i wneud arbedion sylweddol dros amser.

## Atebion

1. 32
2. 90
3. 10
4. 3
5. Dyfrio gyda cywirdeb a rheolaeth er mwyn osgoi gwastraff

**Cwestiynau ychwanegol**
Dylsai'r atebion ddangos tystiolaeth o sgiliau meddwl a rhesymu.





# Arbed dŵr gartref ac yn yr ysgol

## Cwrdd â'r Tîm Cartref

Criw o gydweithwyr gyfeillgar sy'n helpu teuluoedd ac ysgolion i ddysgu sut i arbed dŵr yw Tîm Cartref Dŵr Cymru. Maen nhw'n mynd allan i ymweld â chartrefi ac ysgolion am ddim, gan ddod ag offer arbennig i helpu pobl i ddefnyddio llai o ddŵr. Mae hyn yn gallu cynnwys pethau fel trwsio tapiau sy'n diferu, gosod dyfeisiau arbed dŵr mewn cawodydd a thoiledau, a chynnig cyngor ar ddefnyddio llai o ddŵr yn yr ardd.

**Gadewch i ni archwilio rhai o'r offer y gallent eu gosod i arbed dŵr:**

**1. Pen Cawod Effeithlon**
Mae pen cawod effeithlon yn lleihau llif y dŵr o tua 15 litr y funud i 7 litr y funud.

**Cwestiwn:**
Faint o ddŵr byddech chi'n ei arbed mewn cawod 4 munud gyda'r pen cawod yma?

(Awgrym: Yn gyntaf, cyfrifwch faint o ddŵr mae pob pen cawod yn ei ddefnyddio mewn 4 munud, a tynnwch y ffigur isaf o'r un mwyaf i ddod o hyd i'r gwahaniaeth.)

**2. Amserydd i'r Gawod**
Mae defnyddio amserydd tywod 4 munud i helpu pobl i dreulio llai o amser yn y gawod. Mae newid o gawod 10 munud i gawod 4 munud yn gallu arbed llawer iawn o ddŵr.

**Cwestiwn:**
Os yw cawod 10 munud gyda phen cawod arferol yn defnyddio 150 litr o ddŵr, faint o ddŵr mae cawod 4 munud yn defnyddio (15 litr y funud)?

(Awgrym: Lluoswch y gyfradd llif â'r amser am bob cawod.)

**3. Bagiau Fflysh**
Mae'r bagiau yma'n mynd y tu fewn i'r toiled ac yn arbed tua 1 litr o ddŵr y fflysh.

**Cwestiwn:**
Os yw teulu'n fflysio 10 gwaith mewn un diwrnod, faint o ddŵr byddan nhw'n ei arbed trwy ddefnyddio'r bag fflysh?

(Awgrym: Lluoswch faint o ddŵr sy'n cael ei arbed fesul fflysh â nifer y troeon.)

**4. Awyryddion Tap**
Mae awyryddion tap yn cymysgu aer gyda'r dŵr, gan haneru llif y dŵr.

**Cwestiwn:**
Os yw tap yn defnyddio 6 litr o ddŵr y funud fel rheol, faint o ddŵr fydd y tap yn defnyddio fesul munud gydag awyrydd?

(Awgrym: Rhannwch y gyfradd llif rheolaidd â 2. Talgrynwch i'r rhif cyfan agosaf.)

**5. Sbardun Pibell Ddyfrio**
Sbardun yw hwn sy'n atal llif y dŵr pan nad yw'r bibell ddyfrio'n cael ei defnyddio. Mae hyn yn helpu i arbed dŵr yn yr ardd.

**Cwestiwn:**
Pam ydych chi'n meddwl y gallai sbardun pibell ddyfrio arbed dŵr o gymharu â phibell gyffredin?

### Cwestiynau ychwanegol

a) Pa offeryn arbed dŵr ydych chi'n meddwl fydd yn arbed y mwyaf a pham?

b) Petaech chi'n defnyddio'r holl offer yma bob dydd, a fyddech chi'n arbed ychydig bach neu llawer iawn o ddŵr? Pam?

c) Pam mae arbed dŵr mor bwysig?

d) Allwch chi feddwl am ffyrdd eraill o arbed dŵr gartref?

e) Rhannwch eich syniadau â ffrind neu berthynas!



# Creu eich taflen 'Cartref' eich hun

Yn y gweithgaredd creadigol yma, bydd y disgyblion yn dylunio taflen i annog pobl i drefnu ymweliad gan beirianwyr effeithlonrwydd dŵr Tîm Cartref Dŵr Cymru. Mae'r dasg yma'n caniatáu i'r disgyblion ddefnyddio eu dealltwriaeth am ddyfeisiau arbed dŵr a'u manteision, wrth ymarfer sgiliau ysgrifennu darbwyllol a dylunio hefyd.


## Awgrymiadau i athrawon

**Hyrwyddwch y Negeseuon Allweddol**
Atgoffwch y disgyblion i bwysleisio manteision ymweliadau Cartref, fel arbed dŵr a lleihau biliau.

**Canolbwyntiwch ar Ddarbwyllo**
Anogwch y disgyblion i ddefnyddio iaith ddarbwyllol a dyluniad deniadol fel bod eu taflen yn apelio at y llygad.

**Rhannwch ac Arddangoswch**
Ystyriwch arddangos y taflenni o gwmpas yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth am arbed dŵr.

Mae esiamplau isod:








# Creu eich taflen Cartref eich hun

Nawr eich bod chi'n gwybod am holl waith hynod y Tîm Cartref Dŵr Cymru i'n helpu ni i arbed dŵr, mae hi'n amser profi'r wybodaeth yna!

Dychmygwch eich bod chi'n aelod o'r Tîm Cartref, a'ch gwaith chi yw creu taflen i annog teuluoedd ac ysgolion i drefnu ymweliad arbed dŵr am ddim.

## Beth ddylech chi ei gynnwys yn eich taflen?

Ystyriwch beth mae angen i bobl ei wybod:

**Pwy yw'r Tîm Cartref**
Esboniwch taw arbenigwyr arbed dŵr sy'n helpu pobl i leihau gwastraff dŵr am ddim yw'r Tîm Cartref.

**Pam fod arbed dŵr yn bwysig**
Gallech ychwanegu ambell i reswm, fel helpu'r amgylchedd neu sicrhau bod yna ddigon o ddŵr i bawb.

**Yr offer maen nhw'n defnyddio**
Dewiswch ambell un o'r offer arbed dŵr rydych chi wedi dysgu amdanyn nhw (fel amseryddion i'r gawod, awyryddion tapiau, neu sbardunau ar gyfer pibellau dyfrio) ac esboniwch sut mae'r rhain yn helpu i arbed dŵr.

**Sut y gall ymweliad helpu**
Rhowch wybod i bobl fod y Tîm Cartref yn gallu ymweld â'u cartrefi neu ysgolion i osod yr offer yma, trwsio gollyngiadau bach, a roi cyngor ar arbed dŵr.

**Sut i gofrestru**
Anogwch bobl i gofrestru am ymweliad Cartref a dechrau arbed dŵr!

**Gwnewch hi'n ddeniadol!**
Ychwanegwch ychydig o greadigrwydd at eich taflen:

- Defnyddiwch liwiau llachar, teitlau mawr a lluniau o'r offer arbed dŵr.
- Ychwanegwch slogan hwyliog fel "Arbed dŵr gyda'r Tîm Cartref – mae pob diferyn yn cyfri!"
- Gwnewch hi'n gyfeillgar ac yn groesawgar fel bod pobl yn awyddus i ddysgu rhagor!




Ar ôl gorffen, rhannwch eich taflen â'r dosbarth er mwyn helpu i ledu'r gair am y Tîm Cartref a'u hymdrechion i arbed ddŵr.

# Yr helfa sborion a'r cynllun gweithredu Eco-ysgolion

## Tasg ymchwil Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4

Mae'r dasg Eco-ysgolion yma'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd dŵr yn rhan o'r rhaglen Eco-ysgolion ehangach, gan helpu disgyblion i archwilio pwysigrwydd effeithlonrwydd dŵr wrth greu ysgol fwy cynaliadwy. Mae'r gweithgareddau'n gyson â nodau Eco-ysgolion trwy feithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol ymarferol a hybu camau y gellir eu rhoi ar waith yn yr ysgol a'r cartref.

### Awgrymiadau i athrawon

**Cyflwynwch Nodau Eco-ysgolion**
Esboniwch y rhaglen Eco-ysgolion, gan bwysleisio sut mae effeithlonrwydd dŵr yn cynorthwyo cynaliadwyedd ac arferion eco-gyfeillgar yn yr ysgol.

**Hyrwyddwch Gadwraeth Ymarferol**
Gofynnwch i'r disgyblion fwrw syniadau am weithgareddau arbed dŵr penodol y gallant eu rhoi ar waith yn yr ysgol, fel chwilio am dapiau sy'n diferu, arbed dŵr yn y tai bach, a chreu negeseuon i atgoffa pobl i arbed dŵr.

**Integreiddiwch Weithgareddau Effeithlonrwydd Dŵr**
Cysylltwch y dasg Eco-ysgolion â gweithgareddau eraill yn y dosbarth, fel archwiliadau dŵr, dyddiaduron dŵr, a thasgau ymchwil ar ddefnydd o ddŵr. Mae hyn yn ategu sgiliau ymarferol, fel arsylwi, casglu data a datrys problemau.

**Ffurfiwch Eco-bwyllgorau**
Anogwch y disgyblion i ffurfio grwpiau neu bwyllgorau i fonitro a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr o gwmpas yr ysgol, i ategu dull ymarferol o weithredu o ran cyfrifoldeb amgylcheddol.

**Dathlwch ac Arddangoswch**
Arddangoswch syniadau, posteri a chanfyddiadau'r disgyblion mewn lleoliad canolog yn yr ysgol er mwyn ysbrydoli pobl eraill, a gwneud y rhaglen Eco-ysgolion yn fwy gweladwy.





# Yr helfa sborion a'r cynllun gweithredu Eco-ysgolion

## Helfa Sborion Eco-ysgolion

Y Dasg: Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach a rhowch restr o arferion eco-gyfeillgar i bob grŵp chwilio amdanynt o gwmpas yr ysgol. Eu tasg yw ticio unrhyw rai y maent yn eu ffeindio, a nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Enghreifftiau ar gyfer rhestr yr helfa sborion:

- **Biniau ailgylchu**
  A oes yna finiau ailgylchu yn yr ystafelloedd dosbarth, y coridorau a'r ardal ginio?
- **Dyfeisiau arbed dŵr**
  A yw'r tapiau'n cau'n awtomatig neu a oes yna arwyddion i atgoffa'r disgyblion i gau'r tap?
- **Nodweddion arbed ynni**
  Chwiliwch i weld a yw'r goleuadau wedi eu diffodd mewn ystafelloedd gwag, ac a oes bylbiau arbed ynni.
- **Tir gwyrdd**
  Cofnodwch unrhyw dir gwyrdd, gerddi neu goed o gwmpas yr ysgol.
- **Lleihau gwastraff**
  A oes yna finiau compostio neu fentrau i leihau gwastraff bwyd?

## Cwestiynau trafod

Ar ôl yr helfa, bydd pob grŵp yn myfyrio ar:

- Pa arferion eco-gyfeillgar sy'n gweithredu'n barod?
- Beth y gellir ei wneud i wneud yr ysgol yn fwy eco-gyfeillgar?

## Gweithdy Cynllunio Eco-weithredu

Y Nod: Bydd pob grŵp yn dewis un maes ar gyfer gwella o restr yr helfa sborion, ac yn bwrw syniadau ar gyfer "Cynllun Eco-weithredu."

**Camau'r cynllun Eco-weithredu:**

- **Beth yw'r broblem?**
  Disgrifiwch yr arfer eco-gyfeillgar y maent am ei gwella.
- **Ystyried syniadau am atebion i'r broblem**
  Meddyliwch am o leiaf dwy ffordd bosibl o wneud y maes yma'n fwy eco-gyfeillgar (e.e. ychwanegu arwyddion arbed dŵr, creu cymeriad arch-arwr arbed dŵr i atgoffa pobl, neu ddechrau sialens ailgylchu).
- **Crëwch gynnig syml**
  Ysgrifennwch neu luniwch gynnig syml sy'n esbonio'r gwelliant a ddewiswyd, a sut y gallai hyn helpu'r ysgol i nesáu at ei gwobr Eco-ysgolion nesaf.

## Rhannu a phleidleisio

**Cyflwyniad**
Pob grŵp i gyflwyno eu Cynllun Eco-weithredu i'r dosbarth gan esbonio'r broblem o dan sylw, eu hateb, a sut y byddai'n helpu i gyflawni'r nodau Eco-ysgolion.

**Pleidlais Dosbarth**
Fel dosbarth, pleidleisiwch i ddewis un neu ddau gynllun gweithredu i ganolbwyntio arnyn nhw fel prosiect ysgol. Trafodwch sut y gallai'r syniadau hyn helpu'r ysgol ar ei siwrnai tuag at wobr Eco-ysgolion.

## Gweithgaredd dilynol

**Sêr Effeithlonrwydd Dŵr**
Ar ôl dewis cynllun gweithredu, gall y disgyblion ddod yn "Sêr Effeithlonrwydd Dŵr" trwy dracio eu cynnydd, dathlu cyflawniadau bach, a chyflwyno adroddiadau ar eu canlyniadau arbed dŵr er mwyn helpu'r ysgol i gyflawni ei nodau Eco-ysgolion.

Taflen waith

# Testun darllen a deall i'r disgyblion

## Dŵr Cymru: ein hymgyrch i arbed dŵr

Mae Dŵr Cymru'n gweithio'n galed pob dydd i ddod â dŵr glân i gartrefi, ysgolion a busnesau ar draws Cymru. Mae angen dŵr arnom i yfed, coginio, ymolchi a chwarae. Dyna pam fod Dŵr Cymru am annog pobl i ddefnyddio y dŵr maent ei hangen, ond heb ei wastraffu.

Mae pob diferyn o ddŵr yn bwysig, a gall fod yn effeithlon gyda'n dŵr helpu arbed arian ar filiau, amddiffyn yr amgylchedd, a sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr - yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd sych a galw uchel am ddŵr.

## Sut mae Dŵr Cymru'n arbed dŵr?

Mae Dŵr Cymru'n gwneud llawer o weithgareddau i arbed dŵr. Maen nhw'n trwsio pibellau'n mor gyflwym ag y gallant er mwyn atal gollyngiadau a cheisio sicrhau nad yw'r dŵr yn cael ei golli cyn iddo gyrraedd ein cartrefi. Maen nhw'n ymweld a chartrefi er mwyn trwsio teiledau sy'n gollwng yn rhad ac am ddim. Mae nhw hefyd yn addysgu pobl sut i arbed dŵr trwy gau tapiau wrth frwsio dannedd, a rhoi llwyth llawn yn y peiriant golchi bob tro.

## Beth gallwn ni ei wneud i arbed dŵr gartref?

Dyma ambell i ffordd hawdd o arbed dŵr gartref:

1. Cau'r tap wrth frwsio dannedd.
2. Cael cawod byr yn lle bath hir.
3. Casglu dŵr glaw yn yr ardd i ddyfrio'r planhigion.
4. Aros nes bod llwyth llawn cyn cynnau'r peiriant golchi dillad neu'r peiriant golchi llestri.

Mae pob cam bach yn gallu helpu i arbed llwyth o ddŵr!



# Cwestiynau darllen a deall i'r disgyblion

Taflen waith

1. **Pam fod hi mor bwysig i ni i ddefnyddio dŵr yn ddoeth?**
   **Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir**

   a) Mae ei sblasio'n hwyl

   b) I yfed, golchi a choginio

   c) Mae'n gwlychu pethau

2. **Beth** mae Dŵp Awmps wl eg ulesb ep muwl fejns ap`eb bŵp awl gbbm ewppaebb egl aaprpedg=

3. Nam bbwjqag nm`j wle Lefwmps ap`eb bŵp* ep eg dmb wl ejaugm apwl bgnwl?

4. **Rhestrwch ddwy ffordd** mae Dŵp Awmps wl eajjs fejns auqmepgagb g **arbed dŵr yn y cartref.**

5. **Enwch un ffordd o arbed dŵr yn yr ystafell ymolchi, ac un ffordd yn yr ardd.**

Mae'r gweithgareddau yma yn gysylltiedig â gweithdai ysgolion Dŵr Cymru i drefnu ymweliad, ewch i **dwrcymru.com/addysg**

# Yr ymchwiliad i dap sy'n diferu

Trwy'r ymchwiliad ymarferol yma, bydd y disgyblion yn mesur faint o ddŵr mae tap sy'n diferu'n ei wastraffu dros gyfnod penodol. Mae'r gweithgaredd yma'n darparu tystiolaeth gadarn am sut y gall gollyngiad bach wastraffu llawer o ddŵr, sy'n dangos pa mor bwysig yw trwsio gollyngiadau fel cam syml i arbed dŵr.

## Awgrymiadau i athrawon

**Hyrwyddwch Arsylwi**
Gofynnwch i'r disgyblion arsylwi'n ofalus a mesur faint o ddŵr sy'n cael ei gasglu dros amser, gan bwysleisio cywirdeb.

**Trafodwch y Canlyniadau**
Ar ôl mesur, trafodwch yr effaith bosibl petai'r diferu'n parhau am un diwrnod, un wythnos, neu un mis er mwyn dangos gwastraff cronnol.

**Cysylltwch hyn ag Arbed Dŵr**
Pwysleisiwch fod trwsio gollyngiadau bach yn ffordd hawdd ac effeithiol o arbed dŵr.

## Casgliad

Fel dosbarth, trafodwch sut y gall diferion bach hyd yn oed wastraffu llawer o ddŵr dros amser. Anogwch y disgyblion i feddwl am ffyrdd o arbed dŵr, a phwysigrwydd trwsio gollyngiadau.

Bydd yr ymchwiliad yma'n helpu'r disgyblion i ddeall gwir effaith gollyngiad syml, ac ategu'r syniad o effeithlonrwydd dŵr.

## Awgrym

Oeddech chi'n gwybod y gall toiled sy'n gollwng, ddefnyddio hyd at 8,000 litr o ddŵr y dydd! Awgrymwch i'ch disgyblion, os ydyn nhw'n meddwl bod ganddyn nhw doiled sy'n gollwng, i roi gwybod i'w rhieni neu warcheidwaid, gan fod gan Dŵr Cymru gynllun ar eu gwefan lle gallant drwsio toiledau sy'n gollwng yn rhad ac am ddim.

**dwrcymru.com/cartref**





# Yr ymchwiliad i dap sy'n diferu

## Faint o ddŵr gall tap sy'n diferu ei wastraffu?

Ymchwilio i faint o ddŵr mae tap sy'n diferu'n ei wastraffu, a deall pam ei bod hi'n bwysig atal gollyngiadau.

**Offer angenrheidiol:**
- Tap
- Cynhwysydd bach neg gwpan
- Jwg mesur
- Amserydd
- Cyfrifiannell

## Cyfarwyddiadau

1. **Gosodwch yr arbrawf**
   Gosodwch y cynhwysydd o dan y tap. Trowch y tap yn araf bach nes ei fod yn diferu tua un diferyn yr eiliad.
2. **Dechreuwch amseru**
   Gan ddefnyddio'r amserydd, mesurwch faint o ddŵr sy'n cronni mewn 1 funud.
3. **Mesurwch y dŵr**
   Ar ôl 1 funud, arllwyswch y dŵr o'r cynhwysydd i'r jwg mesur i fesur faint o ddŵr sydd wedi cronni.
4. **Cofnodwch canlyniadau**
   Ysgrifennwch faint o ddŵr gafodd ei gasglu mewn 1 funud yn y bwlch:

   ..............ml y funud
5. **Cyfrifwch faint fydd yna mewn awr, ac mewn diwrnod:**
   Defnyddiwch eich mesuriad 1 funud i gyfrifo faint o ddŵr fyddai'n diferu mewn awr (lluosi â 60) a chofnodwch hyn isod:

   ..............ml yr awr
6. **Cyfrifwch faint fyddai'n diferu mewn diwrnod cyfan**
   Lluoswch eich mesuriad ar gyfer 1 awr â 24

   ..............ml y dydd
7. **Nawr gadewch i ni drosi ein mesuriad mewn ml yn litrau**
   Cymrwch eich mesuriad ml y dydd a'i rannu â 1000 (am fod 1000ml mewn litr)

   Mae .......... litr y dydd yn cael eu gwastraffu gan dap yn diferu
8. **Cwestiynau trafod**
   - Faint o ddŵr oedd y tap yn diferu'n ei wastraffu mewn diwrnod?
   - Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig trwsio tap sy'n diferu?
   - Beth gallem ni ei wneud gyda'r dŵr a fyddai'n cael ei wastraffu?

Mae'r gweithgareddau yma yn gysylltiedig â gweithdai ysgolion Dŵr Cymru i drefnu ymweliad, ewch i **dwrcymru.com/addysg**

## Meddwl am y gweithdy ymarferol

Yn y gweithgaredd yma, bydd disgyblion yn llenwi taflen waith i grynhoi beth ddysgon nhw yn y sesiwn ymarferol. Byddan nhw'n ateb cwestiynau am eitemau arbed dŵr, fel bagiau hippo, ac am amrywiaeth o eitemau'r cartref, ynghyd â'u defnydd o ddŵr. Mae'r dasg yma'n annog disgyblion i gadarnhau beth maen nhw wedi dysgu, a meddwl yn feirniadol am ffyrdd ymarferol o arbed dŵr.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch y Disgyblion i roi Ymatebion Ystyriol**

Atgoffwch y disgyblion i feddwl nôl at y sesiwn ymarferol ac ystyried beth wnaeth beri syndod iddyn nhw, neu pa wybodaeth ddefnyddiol maen nhw'n cofio.

**Hyrwyddwch Cofio Ffeithiau Allweddol**

Gofynnwch i'r disgyblion enwi eitemau penodol a gododd yn y gwersi, ynghyd â'u potensial i arbed dŵr, er mwyn ategu cofio a deall.

**Trafodwch Ddefnyddiau Ymarferol**

Defnyddiwch y gweithgaredd hwn fel cyfle i drafod sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio'r eitemau arbed dŵr yma gartref, a sut y gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr.

## Atebion

1. Dyfais arbed dŵr sy'n cael ei osod yn seston y toiled i arbed dŵr ar bob fflysh yw bag hippo.
2. a) 5 litres
   b) 2-3 litres
   c) 9 litres
   d) 6 litres
   e) 54 litres
   f) 36 litres
   g) 18 litres

**Dyfeisiau'r gegin a'u defnydd**

- Tap (9 litr y funud)
- Peiriant golchi llestri ar osodiad eco (15 litr)
- Golchi'r llestri yn y sinc (12 litr)
- Golchi'r llestri mewn powlen (8 litr)
- Peiriant golchi dillad (80 litr)
- Tegell (2 litr)

**Eitemau'r ystafell ymolchi a'u defnydd**

- Cawod 4 munud (28 litr)
- Cawod 5 munud (35 litr)
- Cawod pŵer 5 munud (80 litr)
- Bath (80 litr)
- Gadael y tap yn rhedeg wrth frwsio dannedd (9 litr y funud)
- Brwsio dannedd â chwpan ½ litr
- Fflysio'r toiled heb fag hippo (9 litr)
- Fflysio'r toiled â bag hippo (9 litr)

**Eitemau'r ardd a'u defnydd**

- Can dyfrio (10 litr)
- Dyfrio'r ardd â phibell ddyfrio (9 litr y funud)
- Golchi car â phibell ddyfrio (9 litr y funud)
- Taenellwr (500-1000 litr yr awr)
- Casgen ddŵr (0 litr)

4. Efallai bydd enghreifftiau yn cynnwys: cyfathrebu, gwrando, meddwl, rhif, darllen, gwaith tîm, datrys problemau, cynllunio, arweinyddiaeth, cyd-weithio





# Meddwl am y gweithdy ymarferol

Am eich bod chi wedi cael gweithdy ymarferol am effeithlonrwydd dŵr, gadewch i ni gymryd ychydig bach o amser i ystyried beth rydych chi wedi dysgu.

1. Esboniwch beth yw Bag Hippo a sut mae'n helpu i arbed dŵr.

.......................................................................................................................

2. Cyfrifo'r arbedion dŵr.
   Yn y gweithdy, fe ddysgoch chi am y defnydd o ddŵr gyda Bag Hippo a hebddo.

| | |
|---|---|
| a) Faint o ddŵr mae Bag Hippo'n ei ddal? | |
| b) Faint o ddŵr mae Bag Hippo'n ei arbed? | |
| c) Faint o ddŵr mae'n ei gymryd i fflysio toiled heb Fag Hippo? | |
| d) Faint o ddŵr mae toiled â Bag Hippo'n defnyddio? | |
| e) Pe baem ni'n mynd i'r toiled 6 gwaith mewn diwrnod gan ddefnyddio toiled heb Fag Hippo, faint o ddŵr fydden ni'n defnyddio? | |
| f) Pe baem ni'n mynd i'r toiled 6 gwaith y dydd gan ddefnyddio toiled â Bag Hippo, faint o ddŵr fydden ni'n defnyddio? | |
| g) g) Felly faint o ddŵr gallem ni ei arbed mewn diwrnod gan ddefnyddio Bag Hippo (h.y. e tynnu f)? | |

3. Yn ystod ail ran y gweithdy, fe edrychon ni ar y gwahanol ddyfeisiau sy'n defnyddio dŵr yn ein cartrefi; yn y gegin (glas), yn yr ystafell ymolchi (oren) a'r tu allan (gwyrdd).

| | Enw'r eitem | Defnydd o ddŵr |
|---|---|---|
| Y gegin | | |
| Yr ystafell ymolchi | | |
| Yr ardd | | |

4. Rhestrwch y sgiliau y defnyddioch chi a'ch tîm yn y gweithdy

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

# Meddwl am y Frwydr Dŵr

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y myfyrwyr yn meddwl am y gweithdy effeithlonrwydd dŵr lle chwaraeon nhw gêm ryngweithiol ar iPads ac ymarfer "chwilio am y gwahaniaethau" rhwng dau gartref (y naill yn effeithlon o ran dŵr a'r llall ddim). Byddan nhw'n ateb cwestiynau yn seiliedig ar y gêm, gan ategu'r technegau arbed dŵr y dysgon nhw.

## Awgrymiadau i athrawon

**Anogwch Sylw i Fanion**

Atgoffwch y disgyblion i chwilio'n ofalus am fân-wahaniaethau rhwng y ddau gartref yn yr ymarfer "chwilio am y gwahaniaethau" sy'n ategu arferion arbed dŵr penodol.

**Cysylltwch Dysg o'r Gêm â Bywyd Go Iawn**

Gofynnwch i'r disgyblion fyfyrio ar beth ddysgon nhw yn y gêm a sut mae'r gwersi yna'n berthnasol i effeithlonrwydd dŵr yn eu cartrefi eu hunain.

**Trafodwch y Ffeithiau Allweddol**

Ar ôl cwblhau'r myfyrdod, ewch dros yr atebion gyda'ch gilydd gan ategu pwysigrwydd pob awgrym am ffyrdd o arbed dŵr a gododd yn ystod y gêm.

Ar ôl y cwis, mae canllaw i rieni ei lawrlwytho er mwyn chwarae'r gêm gartref, gyda chymhorthion i hwyluso trafodaeth ar gynnydd yn y dosbarth.

## Atebion cwis y Frwydr Dŵr

**1. Anghywir**
Mae rhai gollyngiadau y tu mewn i'n cartrefi yn gudd, felly mae'n bwysig edrych yn ofalus - fel ym mowlen eich toiled!

**2. Cywir**
Er bod cael mesurydd dŵr yn gwella ein mewnwelediad i faint o ddŵr rydyn ni'n ei ddefnyddio, nid oes gan y rhan fwyaf o gartrefi yn y DU fesurydd dŵr wedi'i osod eto.

**3. Anghywir**
Nid yw dyfrhau'r dail yn gwneud llawer o les – ceisiwch ddyfrhau mor agos â phosibl at y pridd.

**4. Cywir**
Mae'n braf bod yn lân, ond gallwn gyflawni hyn yn hawdd o fewn 4 munud. Defnyddiwch amserydd cawod i fesur faint o amser rydych chi'n ei dreulio yn y gawod ac i ddod o hyd i ffordd o leihau'r amser.

**5. Cywir**
Mae casgen ddŵr yn ffordd wych o gasglu dŵr glaw i'w ddefnyddio yn yr ardd – ac mae'n ddŵr am ddim, heb unrhyw gost!

**6. Anghywir**
Dim ond llenwi'r tegell gyda'r dŵr sydd ei angen arnoch – fel arall, rydych chi'n gwastraffu dŵr ac ynni trydanol.

**7. Cywir**
Peidiwch â gadael y tap yn rhedeg wrth frwsio'ch dannedd. Gall diffodd y tap arbed tua 6,000 litr o ddŵr y flwyddyn.

**8. Cywir**
Gall defnyddio powlen golchi llestri yn eich sinc leihau eich defnydd o ddŵr yn sylweddol.



# Cwis y Frwydr Dŵr



1. Os oedd dŵr yn gollwng yn eich cartref, byddai'n hawdd ei weld. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

2. Does dim mesurydd dŵr gan y rhan fwyaf o gartrefi yn y Deyrnas Unedig. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

3. Mae hi fel arfer yn syniad da dyfrio dail eich planhigion yn ogystal â'r pridd. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

4. Bydd treulio un funud yn llai yn y gawod yn arbed tua 10 litr bob tro ac yn arbed arian ar eich biliau ynni hefyd. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

5. Gall casgenni dŵr ddal a chasglu hyd at 200 litr o ddŵr glaw g%u bbed l wbbgm w l wp apbb, felly mae'r dŵr yma am ddim, a does yna ddim cost i ni. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

6. Dylem lenwi'r tegell yr holl ffordd i'r top, hyd yn oed os oes angen defnyddio ychydig bach yn unig. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

7. Wrth frwsio dannedd, dylem ni gau'r tap am y bydd hyn yn arbed 18L o ddŵr bob tro. Gwir neu anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

8. Dylem ni geisio defnyddio powlen golchi llestri neu blwg wrth olchi llestri. Gwir neu Anwir?

   ◯ Gwir ◯ Anwir

Taflen waith

# Meddwl am y Frwydr Dŵr

Am eich bod chi wedi cael ein sesiwn 'Brwydr Dŵr' ymarferol, gadewch i ni dreulio ychydig o amser yn meddwl am beth ddysgoch chi. A allwch chi ddod o hyd i'r gwahanol ffyrdd mae'r ddau dŷ yma'n defnyddio dŵr, a rhoi cylch o amgylch y ffyrdd da o arbed dŵr.

## Gweld y gwahaniaeth




Os defnyddiwch fag hipo yn seston y toiled, byddwch yn arbed 1.2 litr bob tro y byddwch yn tynnu'r dŵr.

Casglwch ddŵr glaw mewn casgen i'w ddefnyddio wedyn.

Gallech wastraffu 15 litr o ddŵr trwy adael i'r tap redeg wrth frwsio'ch dannedd.




Golchwch lwyth llawn yn y peiriant golchi. Mae llwyth llawn o ddillad yn defnyddio llai o ddŵr na dau hanner llwyth.

Ewch i'r gawod yn lle'r bath. Gall bath ddefnyddio 80 litr. Dim ond 35 litr y mae cawod 5 munud yn ei ddefnyddio.

Pa deulu sy'n llwyddo orau i arbed dŵr, A neu B?

Peidiwch â rhoi mwy o ddŵr nag y mae arnoch ei angen yn y tegell.

Golchwch lysiau mewn dysgl ac nid o dan dap sy'n rhedeg.

Mae'n well defnyddio can dŵr na phibell ddyfrhau.



Taflen waith

# Tasg Cartref
# Y Frwydr Dŵr


Yn dilyn ein cyflwyniad byr i'r Frwydr Dŵr yn yr ysgol, byddai'n wych pe bai'r disgyblion yn lawrlwytho'r gêm a dechrau chwarae!

**Gwybodaeth i rieni**

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni am helpu plant i ddeall pwysigrwydd arbed dŵr, a sut y gall newidiadau bach yn eu bywydau pob dydd wneud gwahaniaeth mawr – gan helpu i arbed dŵr, ynni ac arian.

### Beth yw'r Frwydr Dŵr?

Mae'r Frwydr Dŵr yn helpu plant i ddeall pwysigrwydd arbed dŵr trwy droi'r peth yn gêm hwyliog ac addysgiadol. Mae'n addysgu plant am werth defnyddio dŵr yn ddoeth, a'r effaith bositif y gall hynny ei chael am genedlaethau i ddod.






### Ar gyfer pwy mae'r ap yma?

**Plant 6-13 oed**

Dyluniwyd yr ap â chynulleidfa ifanc mewn golwg. Wrth chwarae'r ap, bydd y plant yn helpu creaduriaid bychain i oroesi mewn byd sy'n cael ei beryglu gan ddŵr, sy'n addysgu'r meddyliau ifanc am ddefnydd cyfrifol o ddŵr, a ffyrdd o arbed dŵr.

**Rhieni a gwarcheidwaid**

Chwaraewch gyda'ch plentyn, enillwch bwyntiau a thraciwch sut mae siwrnai arbed dŵr eich plentyn yn mynd.

### Sut mae chwarae'r Frwydr Dŵr?

Bydd plant yn ennill pwyntiau trwy gwblhau lefelau ar yr ap, a gall eu rhieni neu warcheidwaid gymryd rhan trwy gofnodi defnydd y teulu o ddŵr.

Gall rhieni neu warcheidwaid ennill pwyntiau hefyd, a helpu eu plant i ddatblygu'n gynt trwy wneud mân-addasiadau i'w harferion pob dydd o ran defnyddio dŵr.

Gyda'i gilydd, mae teuluoedd yn dysgu am ddefnydd cynaliadwy o ddŵr, yn ennill rhagor o bwyntiau, ac yn gweithio tuag at ennill y Frwydr Dŵr.



Sganiwch y cod QR i **lawrlwytho ap y Frwydr Dŵr heddiw.**

Google Play

App Store

grendel games

Dŵr Cymru
Welsh Water

dwrcymru.com/cartref

Taflen waith

# Dŵr Cymru quiz

## Beth ydych chi'n cofio am effeithlonrwydd dŵr?

Nawr ein bod ni wedi cwblhau ein pecyn dysgu, gadewch i ni wneud cwis i weld faint rydyn ni wedi dysgu am effeithlonrwydd dŵr.

**1. Rhowch gylch o gwmpas dau brif rôl Dŵr Cymru:**

a) Rhoi gwersi nofio

b) Glanhau a dosbarthu dŵr yfed

c) Glanhau dŵr gwastraff

d) Cyflenwi cartrefi â dŵr potel

**2. Enwch un rheswm pam y dylem ni arbed dŵr:**

..........................................................................

**3. Pa un sy'n defnyddio mwy o ddŵr? Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Cawod 5 munud

b) Bath llawn

**4. Enwch un ffordd o arbed dŵr gartref:**

..........................................................................

**5. Sawl cwpanaid o ddŵr ddylen ni yfed bob dydd?**

..........................................................................

**6. Gwir neu anwir: gallai tap sy'n diferu wastraffu hyd at 16 litr y dydd?**

◯ Gwir ◯ Anwir

**7. Ai pobl sydd wedi creu cronfeydd dŵr neu fyd natur? Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Pobl

b) Byd natur

**8. O ran dŵr, pa wlad sy'n defnyddio'r mwyaf fesul person: Rhowch gylch o gwmpas eich ateb:**

a) Cymru

b) Awstralia

c) Unol Daleithiau America

**9. Gwir neu anwir: dŵr hallt yw'r rhan fwyaf o'r dŵr ar ein planed?**

◯ Gwir ◯ Anwir

**10. Gwir neu anwir: ni allwn ni greu dŵr newydd?**

◯ Gwir ◯ Anwir

Dŵr Cymru
Welsh Water